# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Domcare@fieldbay ltd**

**Fieldbay (2019) Ltd**
**Chestnut House**
**Pentref Busnes Tawe**
**Abertawe**
**SA7 9LA**

**This report is also available in English**

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

10/02/2021

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2021.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Domcare@fieldbay ltd

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cymorth Cartref |
| Darparwr Cofrestredig | Domcare@fieldbay limited |
| Lleoedd cofrestredig | 0 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | Dyddiad yr arolygiad cyn RISCA 04/02/2019 |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg? | Ydy |

## Crynodeb

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

Mae'r unigolyn cyfrifol a'r tîm rheoli yn effeithiol ac yn ymatebol yn eu rolau. Mae systemau cadarn ar waith i fonitro perfformiad ac ansawdd y gwasanaeth. Mae'r bobl yn fodlon ar y gofal y maent yn ei gael gan y gweithwyr gofal llawn gwybodaeth, sydd wedi'u hyfforddi'n dda ac sy'n eu hadnabod yn dda. Mae'r cynlluniau personol manwl yn galluogi'r gweithwyr gofal i ddarparu'r cymorth cywir ar yr adeg gywir. Gofynnir am gymorth proffesiynol yn ôl yr angen, ac mae'n galluogi'r bobl i wneud penderfyniad ar sail gwybodaeth am eu bywyd. Mae amrywiaeth o weithgareddau ar gael i'r bobl os ydynt yn dymuno, ac mae'r bobl yn cael eu cefnogi i ymgysylltu a chyfathrebu â phobl eraill. Caiff annibyniaeth y bobl ei hyrwyddo a'i pharchu gan weithwyr gofal a rheolwyr brwdfrydig.

## Llesiant

Mae gan y bobl reolaeth dros eu bywydau bob dydd ac yn gwneud penderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau. Mae'r cyfarfodydd rheolaidd a'r adolygiadau wyneb yn wyneb yn dangos y gall y bobl rannu eu barn a chyfrannu at eu gofal eu hunain. Caiff annibyniaeth y bobl ei hyrwyddo gan weithwyr gofal sydd wedi cael eu hyfforddi'n dda, sy'n frwdfrydig am y gofal y maent yn ei ddarparu. Caiff y bobl eu cefnogi i gael y cymorth proffesiynol cywir, megis cymorth eirioli, i'w helpu i wneud penderfyniadau. Gwelsom fod y gweithwyr gofal yn siarad â'r bobl mewn ffordd urddasol a pharchus, a'u bod yn trafod pynciau ystyrlon â'r unigolion. Dywedodd y bobl a oedd yn defnyddio'r gwasanaeth wrthym eu bod yn teimlo y gallant fynd at y gweithwyr gofal, y rheolwr a'r unigolyn cyfrifol, a siarad â nhw'n agored. Gall y bobl roi adborth yn uniongyrchol i'r unigolyn cyfrifol ar faterion sy'n bwysig iddynt, a gwelsom dystiolaeth o hyn yn y systemau sicrhau ansawdd sydd ar waith.

Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda a'u bod yn ddiogel. Roedd y bobl yn teimlo'n hyderus i leisio pryderon ac yn gwybod â phwy i siarad am unrhyw broblemau. Mae canllaw i ddefnyddwyr y gwasanaeth yn darparu gwybodaeth allweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, gan gynnwys y weithdrefn gwyno. Mae gan y gwasanaeth bolisïau a gweithdrefnau ar waith sy'n adlewyrchu'r ddeddfwriaeth a'r canllawiau cyfredol, ac mae'r gweithwyr gofal yn gyfarwydd â'r rhain. Mae'r gweithwyr gofal yn cael hyfforddiant da ac yn gymwys i reoli pryderon. Gwelsom fod diwylliant agored yn y gwasanaeth lle y caiff materion eu trin a'u gwerthuso. Mae systemau sicrhau ansawdd cadarn ar waith er mwyn goruchwylio materion yn ymwneud â diogelwch a llesiant y bobl.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

Caiff iechyd corfforol, iechyd meddwl a llesiant emosiynol y bobl eu cefnogi. Gwelsom fod asesiadau a chynlluniau priodol ar waith mewn perthynas ag iechyd y bobl. Caiff y gweithwyr proffesiynol cywir eu cynnwys lle y bo'n briodol a rhoddir asesiadau ar waith er mwyn sicrhau diogelwch a llesiant y bobl. Rhoddwyd y wybodaeth ddiweddaraf i'r bobl a'u teuluoedd yn ystod pandemig COVID-19, ac mae'r cartref wedi hwyluso ymweliadau lle y bo'n bosibl. Yn ystod y cyfnodau pan na chaniatawyd ymweliadau, roedd y gwasanaeth yn hyrwyddo cyfathrebu ag eraill drwy FaceTime. Gwelsom amrywiaeth o asesiadau manwl am COVID-19, symudedd, iechyd a diogelwch a maeth. Mae'r dogfennau clir hyn yn galluogi'r gweithwyr gofal i ddarparu'r gofal cywir ar gyfer yr unigolyn ar yr adeg gywir. Gwelsom fod y gweithwyr gofal yn adnabod y bobl yn dda ac y gallant gefnogi'r bobl yn y ffordd gywir. Yn ystod yr arolygiad, gwelsom nifer o'r bobl yn cymryd rhan mewn gweithgareddau o'u dewis. Mae'r gwasanaeth wedi cynnal digwyddiadau drwy gydol y flwyddyn i'r bobl gymryd rhan ynddynt ym mhob rhan o'r gwasanaeth os byddant yn dewis gwneud hynny.

## Gofal a Datblygiad

Dywedodd y gweithwyr gofal a'r rheolwyr wrthym fod y gwasanaeth yn ystyried amrywiaeth o safbwyntiau a gwybodaeth cyn i rywun ddod i fyw yn y gwasanaeth. Mae'r cynlluniau personol yn dangos tystiolaeth o'r ffordd y mae'r unigolyn, ei anwyliaid a'r gweithwyr proffesiynol yn cyfrannu at y gwaith o ddatblygu'r cynlluniau hyn. Mae cyfarfodydd rheolaidd yn dangos tystiolaeth bod y bobl yn mwynhau rhannu eu safbwyntiau a/neu eu pryderon. Mae'r gwasanaeth yn hyrwyddo gwasanaethau eirioli, a dywedodd y bobl wrthym fod hyn wedi'u helpu i wneud penderfyniadau mawr am eu bywyd. Gwelsom un rheolwr yn holi un person yn fanwl am ei gynlluniau ar gyfer y dyfodol, gan dynnu sylw at y gweithwyr proffesiynol eraill a oedd yn ei gefnogi. Gwelsom fod yr asesiadau iechyd priodol yn cael eu cynnal a bod y gwasanaeth yn gofyn am gymorth proffesiynol yn ôl yr angen, megis Therapi Lleferydd ac Iaith. Caiff adborth gan y bobl, eu perthnasau a gweithwyr proffesiynol ei gasglu yn rheolaidd, a chaiff awgrymiadau eu hystyried.

Mae'r cynlluniau personol yn fanwl ac yn canolbwyntio ar yr unigolyn. Mae pob cynllun yn cynnwys dogfen fanwl 'Amdanaf i', yn ogystal â hanes teulu a hanes bywyd yr unigolyn. Mae'r gweithwyr gofal yn gallu defnyddio hyn i'w helpu i ddeall yr unigolyn y maent yn gofalu amdano. Gwelsom fod y gweithwyr gofal a'r rheolwyr yn adnabod y bobl yn dda iawn. Mae'r cynlluniau personol yn cynnwys gwybodaeth fanwl am denantiaeth yr unigolyn, ynghyd â'i iechyd meddwl a'i ddulliau cyfathrebu. Cynhelir adolygiadau wyneb yn wyneb â'r unigolyn yn rheolaidd, a chaiff y rhain eu recordio. Dywedodd perthnasau wrthym eu bod yn cael y wybodaeth ddiweddaraf ac unrhyw newidiadau i gynllun personol eu hanwylyd ac y gallant rannu eu safbwyntiau. Mae'r cynlluniau personol yn cynnwys canlyniadau a thasgau cefnogi clir ar gyfer yr unigolyn. Mae hyn yn galluogi'r gweithwyr gofal i ddeall yr hyn y gall yr unigolyn ei wneud yn annibynnol a'r hyn y mae angen cymorth arnynt i'w wneud.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

Gwelsom fod y bobl yn cael eu cefnogi i fod yn annibynnol a'u bod yn gwneud eu dewisiadau eu hunain am eu bywydau bob dydd. Dywedodd un person wrthym ei fod wedi cael ei gefnogi i ddysgu sut i goginio a glanhau. Gwelsom fod cypyrddau y gellir eu cloi ar gael i'r bobl storio eu meddyginiaeth yn eu hystafelloedd eu hunain. Roedd y rhan fwyaf o'r cynlluniau personol yn cynnwys asesiadau risg trwyadl sy'n pwysleisio'r tebygolrwydd, y canlyniad a'r risg, ochr yn ochr â chynllun gweithredu manwl. Gwelsom fod y bobl yn cymryd rhan mewn gweithgareddau y maent yn eu mwynhau. Dywedodd un person wrthym am y cyfleoedd gwirfoddoli sydd ar gael yn y gwasanaeth. Mae amrywiaeth o weithgareddau ar gael i'r bobl os byddant yn dewis cymryd rhan ynddynt. Mae gan y gwasanaeth 'gaban hobïau' lle mae gemau, adnoddau celf a chrefft a deunydd darllen ar gael i'r bobl. Mae caffi rhyngrwyd a siop goffi ar gael i'r bobl eu defnyddio a threulio amser ynddynt hefyd. Yn ystod pandemig COVID-19, mae'r bobl wedi cael eu cefnogi i gymryd rhan mewn gweithgareddau a chysylltu â phobl eraill yn y gymuned drwy FaceTime.

Dywedodd un person mai hwn oedd y "*best place I've ever lived*" (lle gorau rwyf erioed wedi byw ynddo).

Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn teimlo'n ddiogel yn y gwasanaeth ac y gallant rannu unrhyw bryderon sydd ganddynt â gweithiwr gofal neu reolwr. Roedd y gweithwyr gofal wedi cael yr hyfforddiant diogelu diweddaraf ac roeddent yn teimlo'n hyderus i roi gwybod am bryderon. Gall y gweithwyr gofal gael gafael ar rifau ffôn unigolion allweddol a pholisïau'r gwasanaeth ar unrhyw adeg gan ddefnyddio'r system electronig. Caiff y polisïau manwl eu hadolygu'n rheolaidd ac maent yn adlewyrchu'r ddeddfwriaeth a'r canllawiau cyfredol. Mae'r gweithwyr gofal yn mynd drwy broses recriwtio briodol ac mae pob un ohonynt yn cael gwiriadau priodol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS).

## Arwain a Rheoli

Mae'r bobl yn cael eu cefnogi gan weithwyr gofal cymwys, sydd wedi cael eu hyfforddi'n dda. Roedd matrics hyfforddiant yn dangos bod y rhan fwyaf o'r gweithwyr gofal wedi cwblhau'r hyfforddiant gorfodol diweddaraf. Gwelsom fod y gweithwyr gofal yn siarad â'r bobl mewn ffordd urddasol a pharchus, gan gynnal sgyrsiau ystyrlon am bynciau sy'n bwysig iddynt. Dywedodd un person wrthym fod y staff yn wych.  Mae sesiynau goruchwylio'r gweithwyr gofal yn fanwl a chânt eu cwblhau yn unol â'r rheoliadau. Dywedodd y gweithwyr gofal wrthym eu bod yn teimlo'n hyderus yn mynd at y rheolwyr gydag unrhyw ymholiadau neu bryderon, a gwelsom dystiolaeth o hyn yn y cyfarfodydd tîm a'r sesiynau goruchwylio. Mae'r gwasanaeth yn gwrando ar broblemau'r gweithwyr gofal ac yn ymateb yn briodol. Gwelsom fod y gwasanaeth wedi trefnu noson allan i'r staff ar ôl trafodaethau am forâl y staff. Caiff y gweithwyr gofal eu cefnogi i gyflawni cymwysterau sy'n berthnasol i'w rôl, ac roedd nifer o weithwyr gofal wedi cael eu dyrchafu yn y gwasanaeth. Dywedodd un person wrthym ei bod yn "*excellent here, all run brilliant*" (ardderchog yma, mae popeth yn cael ei redeg yn wych).

Mae'r unigolyn cyfrifol yn ymweld â'r cartref yn rheolaidd i wneud yn siŵr bod yr unigolion yn hapus ac yn ddiogel. Yn ystod pandemig COVID-19, mae'r unigolyn cyfrifol wedi hwyluso'r ymweliadau hyn drwy FaceTime neu sgyrsiau dros y ffôn. Gwelsom nifer o gofnodion a oedd yn dangos bod yr unigolyn cyfrifol yn siarad â'r bobl a'r gweithwyr gofal a bod eu lleisiau'n cael eu clywed. Roedd y gweithwyr gofal a'r bobl yn gwybod pwy oedd yr unigolyn cyfrifol ac yn teimlo'n hyderus i godi pryderon ag ef. Mae'r adroddiadau ansawdd yn galluogi'r unigolyn cyfrifol a'r rheolwyr i oruchwylio materion megis damweiniau. Gwelsom bwyntiau gweithredu clir a bod y gwersi a ddysgwyd yn cael eu hystyried. Mae'r gwasanaeth yn myfyrio ar yr hyn y mae wedi'i wneud yn dda a'r hyn sydd angen ei wella yn fanwl yn yr adolygiad o ansawdd y gofal bob chwe mis.

Caiff y polisïau a'r gweithdrefnau eu diweddaru i adlewyrchu unrhyw newidiadau yn unol â chanllawiau a deddfwriaeth. Mae'r polisi COVID-19 wedi cael ei ddiweddaru sawl gwaith yn ystod y flwyddyn ddiwethaf i ddarparu digon o wybodaeth i'r gweithwyr gofal er mwyn iddynt gyflawni eu dyletswyddau. Rhoddwyd y wybodaeth ddiweddaraf i'r bobl a'u teuluoedd am

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

bandemig COVID-19. Gwelsom fod y gweithwyr gofal yn gymwys wrth ddefnyddio cyfarpar diogelu personol (PPE) a'u bod yn cydymffurfio â'r canllawiau presennol ar adeg yr arolygiad. Mae'r Datganiad o Ddiben yn gyfredol ac yn adlewyrchu'r gwasanaeth a ddarperir. Mae canllaw i ddefnyddwyr y gwasanaeth yn darparu gwybodaeth allweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, megis rhifau ffôn unigolion cyswllt a'r polisi cwyno.

Mae'r gwasanaeth yn sicrhau diwylliant agored a gonest. Gwelsom fod digwyddiadau'n cael eu hadolygu, a bod yr asiantaethau priodol yn cael eu hysbysu ac yn ymwneud â'r digwyddiadau hynny. Gwelsom drafodaethau clir yn ystod y sesiynau goruchwylio a'r cyfarfodydd i ddangos bod materion yn cael eu codi ac yr eir i'r afael â nhw. Dywedodd un person wrthym ei fod yn awyddus i wneud newidiadau i'w ofal a'r ffordd roedd y gwasanaeth yn ei gefnogi i wneud hyn. Roedd y bobl yn ymddangos yn hyderus wrth siarad â'r gweithwyr gofal a'r rheolwyr am bryderon.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

## Yr Amgylchedd

Nid yw ansawdd yr amgylchedd yn thema sy'n gymwys ar gyfer gwasanaeth cymorth cartref. Archwiliad rhithwir oedd hwn ac ni wnaethom ymweld â'r swyddfa. Mae'r gwasanaeth yn gweithredu o swyddfa ddynodedig sydd â chyfleusterau da i'r staff gwblhau hyfforddiant a/neu sesiynau goruchwylio. Mae gan y swyddfa gyfleusterau da i storio cofnodion preifat a chyfrinachol yn ddiogel.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

| **Y meysydd i'w gwella a'r camau a nodwyd yn yr arolygiad blaenorol neu ers hynny. Wedi'i gyflawni** |
|---|

| **Y meysydd i'w gwella a'r camau a nodwyd yn yr arolygiad blaenorol neu ers hynny. Heb ei gyflawni** | |
|---|---|
| Dim | |

| **Meysydd lle y mae angen gweithredu fel blaenoriaeth** | |
|---|---|
| Dim | |

| **Meysydd lle y mae angen gwneud gwelliannau** | |
|---|---|
| Dim | |

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

**Dyddiad Cyhoeddi** 13/05/2021

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi